# Dalen Ddiffiniadau Fy Mhleidlais Fy Llais

| | |
|---|---|
| **Democratiaeth** | Dyma'r enw a roddwn am leoedd lle mae pobl gyffredin yn cael dewis pwy sy'n rheoli. |
| **Pleidleisio** | Mae hwn yn rhywbeth a wnawn mewn etholiadau. Dyma sut rydyn ni'n dweud pwy rydyn ni eisiau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau mawr. |
| **Etholiadau Lleol** | Dyma ein cyfle i bleidleisio dros bobl i'n cynrychioli ar ein cyngor lleol. Weithiau gallwn hefyd bleidleisio dros feiri yn yr etholiad hwn. |
| **Cynghorydd** | Dyma'r person sy'n cynrychioli barn pobl leol ar y cyngor. |
| **Cyngor** | Mae hwn yn grŵp o bobl etholedig sy'n gofalu am eich cymuned leol. |
| **Plaid Wleidyddol** | Mae hwn yn grŵp o bobl sy'n rhannu syniadau tebyg ynghylch beth sy'n iawn i'r wlad. Maen nhw eisiau cydweithio i gyflawni newid. |
| **Etholiadau Cyffredinol** | Dyma eich cyfle chi i bleidleisio dros Aelod Seneddol (AS) i'ch cynrychioli yn y Senedd. |
| **AS** | Mae hwn yn berson cyffredin sydd wedi penderfynu eu bod eisiau helpu i redeg y wlad.<br>Eu gwaith yw mynd i'r Senedd ac esbonio beth mae pobl sy'n byw yn eu hardal leol yn meddwl am faterion allweddol. |
| **Y Senedd** | Dyma'r man lle mae deddfau'n cael eu gwneud. |
| **Gweinidog Cabinet** | Mae'r person hwn yn rhedeg adran o'r llywodraeth. |
| **Prif Weinidog** | Mae'r person hwn yn rhedeg y wlad gyda chymorth Gweinidogion Cabinet. |